Hawdd ei Ddeall

# Diweddaru’r Cynllun Gweithredu Awtistiaeth i Gymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl

**Wnewch chi ymateb erbyn 27 Mai 2016 os gwelwch yn dda**








Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall o’r ymgynghoriad ‘**Diweddariad o’r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig i Gymru**’

**Ebrill 2016**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon




Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn bydd yn cael ei ddangos mewn ysgrifennu glas cyffredin. Os gwelwch chi eiriau mewn ysgrifennu glas cyffredin, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl yn **Geiriau anodd** ar dudalen 38.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o gopïau o'r fersiwn Hawdd ei Ddeall hwn cysylltwch â:



Adran Datblygu Polisi i Blant ac Oedolion
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru, Caerdydd
CF10 3NQ




E-bost: childrenanddisabilities@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: gov.wales/consultations/healthsocialcare/autism/?skip=1&lang=cy

Ffôn: 029 2080 1439

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys


**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon ........ 2**

**Beth ydy awtistiaeth? ........ 4**

**Beth ydy'r cynllun yma ........ 7**

**Beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn ........ 8**

**Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Awtistiaeth ........ 12**

**Y 4 prif faes gweithredu:**

1. Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant ........ 15
2. Gweld a chadarnhau bod gan rhywun awtistiaeth ........ 18
3. Cefnogaeth sydd ei angen ........ 21
4. Addysg a Gwaith ........ 26

**Beth fyddwn ni'n wneud nesaf ........ 32**

**Gwybodaeth a chyngor defnyddiol ........ 34**

**Geiriau anodd ........ 38**

# Beth ydy awtistiaeth?



Enw byr ydy Awtistiaeth ar nifer o anhwylderau sydd yn cael eu hadnabod fel Anhwylder Sbectrwm Awtistig.



Mae Awtistiaeth yn fath o anabledd.



Mae gan rhai pobl gydag awtistiaeth anabledd dysgu hefyd.



Mae Syndrom Asperger yn fath o awtistiaeth. Ond does gan y bobl gyda Syndrom Asperger ddim anabledd dysgu.



Mae gan rhai pobl gydag awtistiaeth gyflyrau iechyd fel epilepsi, iselder a phroblemau cysgu.



Os oes gennych chi awtistiaeth, mae gennych chi awtistiaeth am eich holl fywyd.

Mae gan tua 1 o bob 100 o bobl awtistiaeth.



Rydyn ni'n meddwl bod gan 31,000 o bobl yng Nghymru awtistiaeth, er nad ydy gwasanaethau yn gwybod am lawer o bobl.



Dydych chi ddim yn gwybod bob tro os oes gan rhywun awtistiaeth wrth edrych arnyn nhw. Felly mae awtistiaeth cael ei alw'n anabledd cudd weithiau.

Mae pobl gydag awtistiaeth yn ei chael hi'n anodd:



- dweud wrth bobl beth maen nhw angen a sut maen nhw'n teimlo



- cyfarfod pobl eraill a gwneud ffrindiau



- deall beth mae pobl eraill yn ei feddwl neu ei ddweud.

Mae pobl gydag awtistiaeth yn ei chael hi'n fwy anodd:



- dysgu yn yr ysgol



- cael swydd



- gwneud a chadw ffrindiau




- cael gwasanaethau yn y gymuned heb gefnogaeth.




# Beth ydy'r cynllun yma

Mae ein Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Awtistiaeth yn dweud beth rydyn ni am wneud yn y dyfodol i helpu pobl gydag awtistiaeth.

Rydyn ni eisiau i blant, pobl ifanc ac oedolion gydag awtistiaeth, a'u rhieni a gofalwyr:



- pobl yn deall beth maen nhw angen



- cefnogaeth ar bob cam o'u bywyd.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein cynllun newydd.




Mae yna ffurflen ymateb i chi ei llenwi er mwyn i chi ddweud beth rydych chi'n feddwl a'ch syniadau.




**Y dyddiad cau i ymateb ydy 27 Mai 2016.**

# Beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn




Yn 2008 fe wnaethon ni gyhoeddi cynllun gweithredu awtistiaeth. Enw hwn oedd **Cynllun Gweithredu Strategol Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.**

## Beth rydyn ni wedi ei wneud yn dda

Rydyn ni wedi gwneud llawer o bethau o dan y cynllun yma. Pethau fel:



- Mae gan bob cyngor berson nawr sydd yn rhoi cyngor ar awtistiaeth yn yr ardal.



- Mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar awtistiaeth.




- Gwell gwybodaeth i bobl gydag awtistiaeth a'u rhieni a gofalwyr.



- Mwy o bobl ifanc yn cael eu profi i weld os oes ganddyn nhw awtistiaeth.



- Gwell cefnogaeth mewn ysgolion.

# Beth mae angen inni wneud

Mae pobl wedi dweud wrthyn ni bod angen inni wneud mwy i helpu pobl gydag awtistiaeth.

Dyma rai pethau sydd angen eu gwneud:



- Mae angen mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth.



- Fe ddylai hi fod yn fwy cyflym a hawdd i weld os oes gan rhywun awtistiaeth.



- Mae rhieni a gofalwyr angen mwy o help i gael gwasanaethau a chefnogaeth.



- Mae angen inni roi mwy o gefnogaeth i oedolion gydag awtistiaeth.



- Fe ddylai yna fod mwy o help i oedolion gydag awtistiaeth gael swydd a byw yn annibynnol.

Yn 2015 fe wnaethon ni ofyn i bobl gydag awtistiaeth a rhieni a gofalwyr pa gefnogaeth roedden nhw ei angen. Fe ddywedon nhw wrthyn ni bod nhw angen:



- Cefnogaeth gydag emosiwn ac ymddygiad.



- Cefnogaeth gyda sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd.



- Gwell mynediad i weithgareddau cymdeithasol a hamdden.




- Gwell dealltwriaeth am awtistiaeth mewn ysgolion.



- Gwell dealltwriaeth am awtistiaeth yn y gwaith a chefnogaeth i gael gwaith.

Rydyn ni eisiau adeiladu ar y cynllun yma nawr er mwyn parhau i wella cefnogaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion gydag awtistiaeth.

# Beth wnaethon ni i ddiweddaru'r cynllun




- Gweld sut roedd cynllun 2008 yn gweithio ac ysgrifennu adroddiad.



- Gofyn beth roedd pobl yn feddwl mewn digwyddiadau ac mewn arolygon.



- Cael cyngor arbenigol gan 2 grŵp.



- Ysgrifennu cynllun ym mis Mai 2015 yn dweud lle roedd angen gwneud rhywbeth ar frys ac yna gweld sut roedden ni'n llwyddo.

# Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Awtistiaeth

Rydyn ni eisiau i blant, pobl ifanc ac oedolion gydag awtistiaeth, a'u rhieni a gofalwyr gael:



- pobl sydd yn deall beth maen nhw angen



- cefnogaeth ar bob cam o'u bywyd.



I wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd rydyn ni'n mynd i greu gwasanaeth Awtistiaeth newydd i Gymru. Fe fydd y gwasanaeth newydd yma yn dod â'r holl wahanol wasanaethau sydd yn helpu pobl gydag awtistiaeth at ei gilydd.





Mae ein cynllun newydd yn siarad am y pethau fyddwn ni'n ei wneud i greu'r gwasanaeth awtistiaeth newydd i Gymru.



Fe fyddwn ni'n gwario £6 miliwn i greu'r gwasanaeth awtistiaeth newydd.

Fe fydd ein cynllun yn ein helpu i wneud rhai o'r pethau rydyn ni'n ei ddweud yn ein deddfau a'n **polisïau** eraill:




- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**




- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**




- **Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni 2016-19**




**Polisi** ydy set o reolau am sut rydyn ni'n gwneud pethau.



Mae ein cynllun newydd yn edrych ar anghenion pobl sydd yn siarad Cymraeg.

Mae yna 4 prif faes o bethau y byddwn ni'n ei wneud yn ein cynllun:



1. Codi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a hyfforddiant



2. Gweld a chadarnhau bod gan rhywun awtistiaeth



3. Cefnogi pobl gydag awtistiaeth



4. Addysg a gwaith



**Mae'r ysgrifen mewn porffor ar y tudalennau nesaf yn dangos y pethau rydyn ni eisiau eu rhoi yn ein cynllun newydd**

# 1. Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant

## Gweithiwr a grŵp awtistiaeth y cyngor



Ers 2008 mae gan pob cyngor yng Nghymru berson sydd yn rhoi cyngor ar awtistiaeth.



Fe fyddwn yn parhau i gefnogi grŵp lle mae gweithwyr y cyngor yn gallu cyfarfod a rhannu'r ffyrdd gorau o roi gwasanaethau a chefnogaeth.



Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r ddogfen hawdd ei darllen hon yn esbonio'r Ddeddf.
Nid yw'r ddogfen hawdd ei darllen hon yn gyfraith.

Rhaid i chi darllen y Ddeddf er mwyn gwybod beth mae'r gyfraith yn dweud.

Tudalen **1** o **83**

O Ebrill 2016 mae deddf newydd yn dweud y bydd angen i'r cynghorau roi gwybodaeth a chefnogaeth. Enw'r ddeddf ydy **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

## Gweithiwr a grŵp awtistiaeth Cymru gyfan



Ers cynllun 2008 mae yna berson a thîm wedi bod yn edrych ar bethau sydd angen eu gwneud i helpu pobl gydag awtistiaeth yng Nghymru.



Y rheswm am hyn ydy gwneud yn siŵr bod pob gwasanaeth yn cael eu cynnwys – fel gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg.



Fe fyddwn yn dal i gefnogi'r gweithiwr a'r grŵp ac fe fyddan nhw'n rhoi cyngor arbenigol inni ac i bobl eraill.

## Gwefan awtistiaeth




Fe wnaethon ni wneud gwefan gyda llawer o wybodaeth defnyddiol am awtistiaeth i staff, pobl gydag awtistiaeth, a'u rhieni a gofalwyr. Mae rhywfaint o'r wybodaeth yma yn Hawdd ei Ddeall.

Dyma'r wefan www.ASDinfowales.co.uk.



Fe fyddwn yn edrych ar ble mae angen mwy o wybodaeth a rhoi gwybodaeth newydd.




Rydyn ni eisiau i wybodaeth gan gyrff eraill fod ar y wefan.

Fe fyddwn ni’n rhoi mwy o hyfforddiant a gwybodaeth i:




- Ysgolion



- Meddygon a nyrsus



- Staff sydd yn helpu pobl gyda phroblemau iechyd meddwl



- Staff hamdden



- Cyflogwyr.

# 2. Adnabod a chadarnhau os oes gan rhywun awtistiaeth



Rydyn ni'n gwybod bod angen gwneud mwy i wneud yn siŵr bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu gweld yn gyflym gan wasanaethau sydd yn adnabod ac yn cadarnhau awtistiaeth.

## Plant a Phobl Ifanc




Mae rhaglen arbennig wedi'i sefydlu o'r enw **Gyda'n Gilydd i Blant a Phobl Ifanc (T4CYP)**.



Rhan o'r gwaith yma ydy gwneud yn siŵr bod awtistiaeth yn cael ei adnabod mewn plant a phobl ifanc mor ifanc â phosibl. Ac yna mae'r gefnogaeth gywir yn cael ei roi.



Hyd yn hyn mae pobl yn cael eu gweld yn fwy cyflym er mwyn adnabod a chadarnhau awtistiaeth.



Fe fyddwn yn edrych yn ofalus ar pa mor dda ydy'r rhaglen arbennig o'r enw T4CYP i adnabod awtistiaeth yn gynnar.

# Oedolion

Mae grŵp wedi bod yn edrych ar wella iechyd pobl gydag awtistiaeth yng Nghymru, Mae wedi bod yn edrych ar



- Helpu gwasanaethau i ddeall pobl gydag awtistiaeth yn well



- Gwella gofal i oedolion gydag awtistiaeth



- Helpu pobl i gael gwasanaethau yn gyflym




- Cael gwasanaethau sydd yn ateb anghenion unigol pobl.



Mae grŵp arall wedi bod yn edrych ar wella gwasanaethau sydd yn adnabod a chadarnhau awtistiaeth mewn oedolion. Mae'r grŵp yma wedi bod yn rhoi cyngor inni ar gefnogi oedolion gydag awtistiaeth.



Fe fyddwn yn rhoi mwy o help i wasanaethau iechyd a chymdeithasol er mwyn iddyn nhw:



- Gwella sut mae adnabod a chadarnhau awtistiaeth mewn plant



- Gwella sut mae adnabod a chadarnhau awtistiaeth mewn  oedolion



- Rhoi gwell cefnogaeth i bobl pan maen nhw'n cael gwybod bod ganddyn nhw awtistiaeth.

Fe fyddwn yn gweld sut rydyn ni'n llwyddo.

# 3. Cefnogi pobl gydag awtistiaeth

## Ateb anghenion pobl gydag awtistiaeth



Dydy rhai pobl gydag awtistiaeth sydd heb anabledd dysgu ddim yn gallu cael gofal a chefnogaeth.



Ond mae gan bobl gydag awtistiaeth angen cefnogaeth. Os nad ydyn nhw'n cael unrhyw help, mae'n gallu gwneud eu problemau yn waeth.




Dywedodd llawer o bobl wrthyn ni bod angen i wasanaethau ddod at ei gilydd er mwyn gweithio i helpu pobl gydag awtistiaeth.

Fe fyddwn ni'n gwneud hyn.

## Gwasanaeth Awtistiaeth Cymru Gyfan



Fe fyddwn ni yn creu gwasanaeth awtistiaeth Cymru gyfan. Fe fyddwn ni'n gwario £6 miliwn i wneud i hynny ddigwydd.



I blant a phobl ifanc, fe fyddwn ni yn gwella gwasanaethau iechyd er mwyn adnabod a chadarnhau awtistiaeth yn well.  A rhoi'r gefnogaeth arbennig maen nhw ei angen iddyn nhw.

I oedolion, fe fyddwn yn creu timau cefnogi cymunedol a fydd yn rhoi:



- Cyngor ar sut mae pobl yn ymddwyn



- Cefnogaeth pan mae pobl ei angen gyntaf



- Mynediad i wasanaethau yn y gymuned



- Gwasanaethau cefnogi



- Cyngor ar ble i fynd am help



- Hyfforddiant i rieni a gofalwyr

Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod:



- Staff yn y gwasanaethau yma yn cael hyfforddiant i'w helpu i wneud eu gwaith yn well.



- Staff o'r gwahanol wasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd.



- Gwasanaethau ar gael ym mhob ardal yng Nghymru.




Fe fydd y gwasanaeth yn cychwyn yn 2016 ac fe fydd wedi ei sefydlu erbyn 2019. I greu'r gwasanaeth awtistiaeth Cymru gyfan fe fyddwn ni yn gweithio gyda'r cynghorau lleol, iechyd, cyrff lleol a phobl gydag awtistiaeth.

# Gofal iechyd arbennig



Mae rhai pobl gydag awtistiaeth ac/neu anabledd dysgu angen gofal iechyd arbennig. Weithiau mae'r gofal arbennig yma ar gael yn lleol i'r person. Rydyn ni eisiau mwy o wasanaethau lleol a fydd yn helpu gyda hyn.



Fe fyddwn yn edrych i weld sut mae rhoi mwy o wasanaethau lleol yn llwyddo.

# Iechyd Meddwl




Mae'r **Ddeddf Iechyd Meddwl** yn gyfraith am sut rydyn ni i fod i gefnogi pobl gyda phroblemau iechyd meddwl.




Nawr mae'r ddeddf yn dweud sut i gefnogi rhywun gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth sydd ag ymddygiad anodd yn y ffordd gorau.



Fe fydd staff sydd yn gweithio gyda phobl ag awtistiaeth gydag ymddygiad anodd yn cael mwy o hyfforddiant.



Fe fyddwn ni yn edrych i weld os ydy pethau wedi gwella i bobl gydag awtistiaeth sydd yn cael eu trin am ymddygiad anodd trwy ddefnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

# Rhieni a Gofalwyr



Mae rhieni a gofalwyr pobl gydag awtistiaeth hefyd angen cefnogaeth i'w helpu i ofalu.



Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Mae'r ddogfen hawdd ei darllen hon yn esbonio'r Ddeddf.
Nid yw'r ddogfen hawdd ei darllen hon yn gyfraith.

Rhaid i chi darllen y Ddeddf er mwyn gwybod beth mae'r gyfraith yn dweud.

Tudalen **1** o **83**

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn rhoi hawl i ofalwyr gael **asesiad** o'u hanghenion.

Mae **asesiad** yn edrych ar eich anghenion gofal a chefnogaeth. Ac yn gweithio allan sut i'w hateb nhw.



Mae yna wasanaethau cefnogi eraill i rieni a gofalwyr plant. Er enghraifft **Rhaglen Cefnogaeth Cynnar a Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd**.

# 4. Addysg a Gwaith



Mae addysg da a chyfle i gael swydd yn bwysig yn ein cynllun newydd.

## Plant a phobl ifanc




Mae rhieni a gofalwyr wedi dweud wrthyn ni nad oes yna ddigon o gefnogaeth yn yr ysgol. Mae angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth.



Rydyn ni'n datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff mewn ysgolion.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol – deddf newydd




Rydyn ni'n cynnig deddf newydd i wella'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd angen help a chefnogaeth ychwanegol i ddysgu.



Mae hyn yn helpu i weithio allan os ydyn nhw angen help ychwanegol yn gynharach. Os ydyn nhw, fe fyddan nhw'n cael help trwy'r holl amser maen nhw mewn addysg.

## Pontio



Rydyn ni'n gwneud ymchwil ar sut mae pobl gydag anhawster dysgu neu anabledd dysgu yn teimlo wrth fynd o'r ysgol i'r coleg. Fe fydd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth inni ar sut i wella hyn.



Rydyn ni hefyd yn gwneud ymchwil ar sut mae pethau i bobl sydd yn gorffen coleg.

## Addysg Bellach



Rydyn ni'n rhoi arian i golegau i helpu myfyrwyr gydag anhawster dysgu neu anabledd dysgu.





Mae gan bobl 16 oed sydd yn gadael ysgol **Gynllun Dysgu a Sgiliau**. Mae hyn yn eu helpu i wneud dewisiadau am goleg a chael yr help maen nhw angen.



Mae rhai pobl ifanc sydd angen mwy o gefnogaeth yn mynd i goleg arbennig, ac mae Llywodraeth Cymru yn talu.

# Help i gael gwaith




Rydyn ni wedi rhoi hyfforddiant gwybodaeth i staff sydd yn cefnogi pobl gydag awtistiaeth i gael gwaith. '**Gweithio gydag Awtistiaeth**' ydy'r enw ac mae ar y wefan yma: www.ASDinfoWales.co.uk



Ers 2010 rydyn ni wedi cefnogi person i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gwaith. Mae'r person yma wedi gwneud cysylltiadau da gyda:



- **Canolfan Byd Gwaith** a **Gyrfaoedd Cymru** i helpu eu staff i ddeall beth ydy anghenion pobl gydag awtistiaeth.



- Grwpiau o gyflogwyr.



Fe fyddwn ni yn dal i weithio gyda chyflogwyr a gweld os ydy gwell ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn helpu pobl gydag awtistiaeth i gael gwaith a gwell cefnogaeth yn y gwaith.

# Cynlluniau gwaith



Mae yna rhai cynlluniau gwaith sydd yn helpu pobl anabl i gael gwaith. Dyma nhw:



**Ymgysylltu i Newid:** mae Llywodraeth Cymru a'r Loteri Fawr wedi rhoi £10 miliwn i bartneriaeth o gyrff gwirfoddol am 5 mlynedd o Ebrill 2016.



Mae hyn i helpu pobl ifanc 16-25 oed gydag awtistiaeth ac/neu anabledd dysgu i ddatblygu eu sgiliau trwy waith gyda chefnogaeth a chyflog. Fe fydd y lleoliad yn para am 1 flwyddyn. Mae mwy o wybodaeth yn www.adcymru.org.uk



Fe fyddwn yn edrych i weld os ydy Ymgysylltu i Newid yn llwyddo.



**Cynlluniau hyfforddi:** mae hyn i bobl ifanc 16-18 oed i'w paratoi ar gyfer gwaith.



**Prentisiaethau:** Mae hyn yn rhoi sgiliau a chefnogaeth i bobl wrth iddyn nhw ddysgu yn y gwaith.

Twf Swyddi Cymru
Jobs Growth Wales

**Twf Swyddi Cymru:** Cefnogaeth gwaith i bobl ifanc ydy hwn.

## Cefnogaeth sgiliau a gwaith o 19 oed

Rydyn ni eisiau pobl ifanc 19 oed a throsodd i gael gwell sgiliau. Rydyn ni yn eu helpu i:




- mynd ar gynlluniau gwaith

- cael yr wybodaeth gywir



- aros mewn gwaith

- cael sgiliau i wneud gwaith.



Rydyn ni'n cefnogi'r cynllun **Porth Sgiliau** lle mae cyrff arbenigol yn helpu pobl anabl i gael hyfforddiant a gwaith.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gwaith ar draws ein holl adrannau yn helpu pobl gydag awtistiaeth o 16 oed.




# Beth fyddwn ni'n wneud nesaf

Fe fyddwn yn gofyn i bobl maen nhw'n feddwl am y cynllun yma. Mae yna ffurflen ymateb i'w llenwi er mwyn gwneud hynny.




Yna yn nes ymlaen yn 2016 fe fyddwn yn ysgrifennu'r Diweddariad o'r Cynllun Awtistiaeth olaf.




Ar yr un pryd fe fyddwn yn ysgrifennu **Cynllun Cyflawni** sydd yn dweud beth rydyn ni'n mynd i'w wneud, beth fydd yn digwydd a sut y byddwn yn edrych arnyn nhw.

## Y Cynllun Cyflawni

Fe fyddwn ni yn:



- Gofyn i rhywun annibynnol weld os ydyn ni'n llwyddo.



- Creu grŵp i roi cyngor a'n harwain ni ar weithio ar y cynllun cyflawni. Fe fydd hyn yn cynnwys cyrff gwirfoddol, pobl gydag awtistiaeth a rhieni a gofalwyr.



- Gweithio gyda phobl o gynghorau lleol, iechyd, addysg a chyrff gwirfoddol.



- Gofyn i gyrff gwirfoddol wneud rhai o'r pethau sydd yn y cynllun.



- Gofyn i bobl gydag awtistiaeth a'u rhieni a gofalwyr ein helpu ni gyda sut mae'r cynllun yn llwyddo.




- Rhoi'r cynllun ar ein gwefan ac ar : www.ASDinfoWales.co.uk.




- Ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn i ddweud sut mae pethau'n mynd. Fe fyddwn yn gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl.



- Siarad gyda phobl mewn digwyddiadau, ar y rhyngrwyd a holi pobl am beth maen nhw'n feddwl o'r cynllun a beth maen nhw eisiau inni wneud yn y dyfodol.

# Gwybodaeth a chyngor defnyddiol




## Gwefan ASD Info Wales

Rydyn ni'n cefnogi'r wefan awtistiaeth:
www.ASDinfowales.co.uk

Mae yna lawer o wybodaeth a chyngor i lawer o bobl. Dyma nhw:




- Rhestr o wasanaethau awtistiaeth yng Nghymru.
- Gwybodaeth gyswllt i'r gweithwyr awtistiaeth ym mhob cyngor.



- Gwybodaeth am hyfforddiant a digwyddiadau.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth i'r cyhoedd.
- Gwybodaeth am dyfu i fyny gydag awtistiaeth.



- Cyngor am fyw gydag awtistiaeth.
- Help mewn cael gwaith i bobl gydag awtistiaeth.



- Gwybodaeth am fyw'n annibynnol.
- Pecyn cymorth i nodi a chadarnhau awtistiaeth.

## Cymdeithas Awtistig Genedlaethol




Elusen DU ydy'r Gymdeithas Awtistig Genedlaethol sydd yn rhoi gwybodaeth i bobl gydag awtistiaeth a'u teuluoedd. www.autism.org.uk




## Ymchwil i Awtistiaeth

Mae gan Ymchwil i Awtistiaeth ymchwil a gwybodaeth am awtistiaeth. www.researchautism.net




## Canolfan Cymru ar Ymchwil i Awtistiaeth, Prifysgol Caerdydd

Ymchwil ar draws y byd a hefyd darganfod atebion yn ymarferol.
http://sites.cardiff.ac.uk/warc.




## Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)

Yn rhoi gwybodaeth a chyngor i wella iechyd a gofal cymdeithasol. www.nice.org.uk.

# Geiriau anodd

## Asesiad

Mae asesiad yn edrych ar eich anghenion gofal a chefnogaeth. Ac yn gweithio allan sut i'w hateb nhw..

## Polisi

Polisi ydy set o reolau am sut rydyn ni'n gwneud pethau..